

CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL SIR GAERFYRDDIN




BRYOFFYTAU ADRAN 42 A'R CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL








Cyfeiriwch at <http://rbg-web2.rbge.org.uk/bbs/bbs.htm> i gael gwybodaeth fanylach a disgrifiadau o'r rhywogaethau





YR AMCANION CYFFREDINOL

- Adnabod safleoedd newydd i'w harolygu yn y sir.
- Annog diddordeb mewn bryoffytau gan wirfoddolwyr.
- Defnyddio rhywogaethau allweddol yn ganolbwynt ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd/ysgolion.
- Codi ymwybyddiaeth ynghylch y rhywogaethau hyn a'r materion sy'n effeithio arnynt.

(Hawlfraint S.Bosanquet yw'r lluniau i gyd)

Y RHYWOGAETH	FFOTOGRAFF	BLE/MATERION	Y CAMAU A GYMERWYD/ SY'N OFYNNOL
Edeufwsogl y Baltig (<i>Bryum marratti</i>)		<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r rhywogaeth hon i'w gweld ar ochr ogleddol Twyni Tywyn ac ar y Morfa Uchaf ger Glanyfferi. Yn y ddau le mae dŵr croyw'n llifo o'r twyni i forfa heli sy'n cael ei bori. 	<ul style="list-style-type: none"> • Pori'r ardal lle mae'r twyni'n ffinio â'r morfa heli ar gyfer <i>Bryum marratii</i>
Edeufwsogl arfor (<i>Bryum warneum</i>)		<ul style="list-style-type: none"> • Nid yw'r rhywogaeth hon wedi cael ei gweld yn Sir Gaerfyrddin ers 1910 ond fe'i gwelwyd yn ddiweddar yn Nhwyni Whiteford. 	<ul style="list-style-type: none"> • Symud twyni ar gyfer <i>Bryum warneum</i> a <i>Petalophyllum ralfsii</i> • Gwaredu rhafnwydd y môr o dwyni arfordirol - Cyngor Sir Gaerfyrddin, y Weinyddiaeth Amddiffyn a Chyfoeth Naturiol Cymru. Ailgreu llaciau twyni ar y meysydd ymarfer ym Mhentywyn a Phen-bre - Cyfoeth Naturiol Cymru
Mwsogl afon aml-ffrwythog (<i>Dendrocryphaea lamyana</i>)		<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r rhywogaeth hon i'w gweld ar afon Teifi yng nghyffiniau Cenarth, Henllan, Pont-tyweli, a Maesycrugiau, ac mae ar ei mwyaf cyffredin ar lan ogleddol heulog yr afon. Hefyd mae i'w gweld mewn un man ar afon Tywi yn Nantgaredig. Mae'r safleoedd yn Nyffrynnoedd Teifi a Thywi yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Deuir o hyd iddi ar greigiau, glannau a choed sy'n gordyfu dros afonydd. 	<ul style="list-style-type: none"> • Clirio coed llawrwydd a chonwydd ar gyfer <i>Dendrocryphaea lamyana</i> yn ymyl afon Teifi • Y wybodaeth wedi'i chyfleu i bysgotwyr lleol.
Daltonia Gwyddelig (<i>Daltonia spachnoides</i>)		<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r rhywogaeth hon yn ymledu i Gymru o Iwerddon – mae'n hoffi tyfu ar goed helyg tra llaith mewn coedwigoedd conwydd. Mae un cofnod o'r rhywogaeth hon yn Fforest Brechfa ac un arall ger Llyn Brianne. 	<ul style="list-style-type: none"> • Dim camau addas.

<p>Mwsogl plwm (<i>Ditrichum plumbicola</i>)</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r rhywogaeth hon i'w gweld mewn dau fwynglawdd plwm nad ydynt yn gweithio mwyach yn Rhandir-mwyn. Cafodd y prif safle ei ddynodi yn 2013 yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Mwyngloddfa Nantymwyn. 	<ul style="list-style-type: none"> • Gwarchodaeth Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar gyfer <i>Ditrichum plumbicola</i> a <i>Scopelophila cataractae</i>
<p>Mwsogl copr dail tafod (<i>Scopelophila cataractae</i>)</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Mae i'w gweld mewn un mwynglawdd plwm nad yw'n gweithio mwyach yn Rhandir-mwyn. Cafodd y prif safle ei ddynodi yn 2013 yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Mwyngloddfa Nantymwyn. 	<ul style="list-style-type: none"> • Gwarchodaeth Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar gyfer <i>Ditrichum plumbicola</i> a <i>Scopelophila cataractae</i>
<p>Crafancwsogl y mynawyd (<i>Ditrichum subulatum</i>)</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r rhywogaeth hon i'w gweld ar lannau asidig uwchlaw cilfachau arfordirol. Mae un cofnod ohoni yn aber afon Taf i'r gogledd o Gartref Dylan Thomas, Lacharn. 	<ul style="list-style-type: none"> • Arolwg pellach ar gyfer <i>Ditrichum subulatum</i> (glannau aberoedd)
<p>Pocedfwsogl Portiwgal (<i>Fissidens curvatus</i>)</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r rhywogaeth hon i'w gweld yng Nghastell Dryslwyn, ond mae prysgoed ar ffurf eithin wedi ymledu yno, a hefyd mae i'w gweld ar glawdd hewl fach ger Llandeilo. 	<ul style="list-style-type: none"> • Clirio'r prysgwydd yng Nghastell Dryslwyn ar gyfer <i>Fissidens curvatus</i> • Trafod y mater â CADW?
<p>Crychfwsogl bregus (<i>Fossombronia fimbriata</i>)</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r rhywogaeth hon i'w gweld ym Mhont-ar-Wysg lle mae llwybr defaid yn croesi llac tra-fasig. 	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal pori ar yr ucheldir ar gyfer <i>Fossombronia fimbriata</i>
<p>Crychfwsogl tyllog (<i>Fossombronia foveolata</i>)</p>	 <div data-bbox="485 2466 1024 2605" style="border: 1px solid black; padding: 5px; margin-top: 10px;"> <p>Mae'r rhan fwyaf o'r gwahanol fathau o <i>Fossombronia</i> yn edrych yn union yr un peth ac mae angen archwilio eu sborau.</p> </div>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r rhywogaeth hon i'w gweld ar lannau Cronfa Ddŵr Wysg 	<ul style="list-style-type: none"> • Arolwg pellach o byllau ar yr ucheldir.
<p>Mwsogl cynffon gwiwer fechan (<i>Habrodon perpusillus</i>)</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r rhywogaeth hon i'w gweld ar goed sycamorwydd ar 'Sir John's Hill', ar ochr ddeheuol Lacharn. 	<ul style="list-style-type: none"> • Gwarchod y coed sycamorwydd ar 'Sir John's Hill' ar gyfer <i>Habrodon perpusillus</i> • Uned hawliau tramwy cyhoeddus CSC wedi cael gwybod am

			bresenoldeb mwsogl ar 'Sir John's Hill'
Llysiau'r afu gwylaeth y gors (<i>Pallavicinia lyellii</i>)		<ul style="list-style-type: none"> Mae'r rhywogaeth hon i'w gweld mewn glaswellt y gweunydd sy'n tyfu'n fras ac yn dwmpathog yng Nghors Goch, Cors y Glyn, Llyn Llech Owain, a Llanpumsaint, ac yn ddiweddar cafwyd hyd iddi ar gefnen uwchlaw Rhandir-mwyn. 	<ul style="list-style-type: none"> Rheoli lefel y dŵr ar gorsydd ar gyfer <i>Pallavicinia lyellii</i>
Llysiau'r afu petalaidd (<i>Petalophyllum ralfsii</i>)		<ul style="list-style-type: none"> Mae'r rhywogaeth hon i'w gweld yn Nhwyni Lacharn-Pentywyn; mae wedi darford yn Nhwyni Pen-bre a Thywyn 	
Mwsogl troellog Wilson (<i>Tortula wilsonii</i>)		<ul style="list-style-type: none"> Mae wedi darford; fe'i cofnodwyd unwaith ger Llansteffan yn 1907. 	<ul style="list-style-type: none"> Arolwg pellach o lethrau arfordirol ger Llansteffan
Mwsogl minfoel dail atblyg (<i>Weissia squarrosa</i>)		<ul style="list-style-type: none"> Mae'r rhywogaeth i'w gweld ar ymyl ffordd ger Glanyfferi. 	<ul style="list-style-type: none"> Arolwg pellach - (tir âr a gwndwn rhygwellt) Trosglwyddo'r manylion ynghylch rheoli ymylon ffyrdd i Wasanaethau Stryd Cyngor Sir Caerfyrddin.

- Mae'r gwaith cofnodi'n dal i fynd rhagddo a deuir o hyd i safleoedd newydd o hyd
- Arall – mae'r ystod o bryoffytau ceunant 'cefnforol' dan fgythyad gan gynlluniau dŵr oherwydd bod lleithder yn cael ei leihau pan fydd dŵr yn ei cael ei waredu i fynd drwy dyrbinau.
- Arolwg pellach ar gyfer *Tortula wilsonii* (haen denau o bridd ar greigiau'r arfordir).

